**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am Yn Nhŷ Rheidol, Aberystwyth ddydd Iau 2 Mawrth 2023**

**Yn Bresennol:** Cath Smith (Cadeirydd)
Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John T Davies (trwy Teams), Rhys Davies, Jack Evershed, Prys Morgan ac Emlyn Roberts, Claire Williams

**Trwy Wahoddiad:** Karla Price (Llywodraeth Cymru) trwy Teams (ymadawodd am 1.40pm)

**Swyddogion Gweithredol yn bresennol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Kirsten Smith (Swyddog Gweithredol Cig Coch) – Eitem 7
Rachael Madeley-Davies (Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi’r Dyfodol)
Jon Parker (Pennaeth Darpariaeth y Gadwyn Gyflenwi)
Laura Pickup (Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau)
Bryan Regan (Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corforaethol)

**Sesiwn Caeedig Bwrdd HCC**

Dechreuodd cyfarfod ffurfiol Bwrdd HCC am 11:04am pan ymunodd y Swyddogion Gweithredol a Karla Price.

1. **Croeso a Sylwadau’r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu’n eu mynychu oddi ar gyfarfod blaenorol y Bwrdd:

17 Ionawr 2023 – Siaradwraig wadd yng nghyfarfod Cymdeithas Clwb Amaeth Sir Fynwy

23 Ionawr 2023 – Gwaith yn ymwneud â phenodiadau i Fwrdd HCC

24 Ionawr 2023 – Mynychu digwyddiad Brecwast Ffermdy blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yng Nghaerdydd, gyda’r Prif Weithredwr a Phennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi’r Dyfodol

2 Chwefror 2023 – Diweddariad am Fwrdd HCC drwy Teams cyn cyfarfod rhithwir o Fwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio. Hefyd, bu’r Cadeirydd yn lansiad ffurfiol digwyddiad Sefydliad Allforio a Masnach Rhyngwladol Cymru yng Nghaerdydd

13 Chwefror 2023 – Cyfweliad gyda *Meat Management Magazine*

15 a 16 Chwefror 2023 – Aelod o’r panel a oedd yn cyfweld ymgeiswyr ar gyfer Bwrdd HCC

21 a 22 Chwefror 2023 – Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr ag uwch swyddogion AHDB a bu'r ddau yng nghynhadledd yr NFU yn Birmingham

24 Chwefror – Cyfarfod o Bwyllgor Tâl HCC

Parhaodd sesiynau dal-i-fyny wythnosol gyda'r Prif Weithredwr drwy Teams.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Nodwyd ymddiheuriadau gan Huw Davies, Aelod o'r Bwrdd, Melody Chapman a Maria Richards, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiadau o Fuddiannau**

Nodwyd datganiadau o fuddiannau fel a ganlyn:-

Rhys Davies – Cadarnhaodd ei fod wedi dechrau gwaith gydag Ystad y Rhug oddi ar fis Rhagfyr 2022. Gallai gwrthdaro ddigwydd pe bai trafodaeth ynghylch masnach yn Y Dwyrain Canol

Claire Williams – Roedd yn gweithio gyda Warrendale Wagyu oddi ar fis Ionawr 2023.

4. **I gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Iau 12 Ionawr 2023 (HCC 1121)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod uchod wedi eu darllen, cawsant eu derbyn gan y Bwrdd a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Partneriaeth Ardystiad Allforio y DG (UKECP)*

Roedd cyfarfod wedi'i gynnal rhwng y Prif Weithredwr, Pennaeth Marchnata Strategol a Chysylltiadau ac uwch gynrychiolydd UKECP yn HCC ar 9 Chwefror 2023.

*Ardoll HCC - Ymgynghoriad*

Cadarnhawyd bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig (y Gweinidog) wedi cymeradwyo argymhelliad HCC ynghylch cynyddu cyfraddau'r Ardoll ar gyfer 2023/2024.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Pwyllgor Gwaith yn symud ymlaen yn awr i hysbysu talwyr yr Ardoll (ffermwyr a phroseswyr) a marchnadoedd arwerthu am y newidiadau arfaethedig fel bod y cyfraddau Ardoll newydd yn cael eu gweithredu o fis Ebrill.

Diolchodd y Prif Weithredwr i'r Bwrdd am eu cyfraniad a'u cefnogaeth gyda'r broses.

*Proses Penodiadau i Fwrdd HCC*

Dywedodd y Cadeirydd fod y broses gyfweld wedi'i chwblhau a'i bod bellach yn nwylo'r Gweinidog i'w hystyried.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Gweithgareddau (HCC 1122)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd gweithgareddau allweddol HCC eu hamlygu gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

b. *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 1123)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Rhagfyr 2022 (HCC 1124)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.

- Roedd gwaith cyllidebu, rhagweld a rhagamcanu wedi ei wneud yn fewnol a rhagwelwyd diffyg o tua £200k ar gyfer diwedd y flwyddyn

Nododd y Bwrdd y sefyllfa ariannol bresennol.

d. *Digwyddiadau i ddod (HCC 1125)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

7. **Corfforaethol**

Ymunwyd â'r cyfarfod gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch.

a. *I gymeradwyo'r crynodeb o newidiadau i Gynllun Busnes drafft HCC 2021 / 2026 a'r Cynllun Gweithredol 2023 / 2024 sy'n codi o gyfarfod y Bwrdd ar 12 Ionawr 20237 (HCC 1126)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

b. *I gymeradwyo Cynllun Busnes drafft HCC ar gyfer 2021 / 2026 (HCC 1127)*

c. *I gymeradwyo Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2023 / 2024 (HCC 1128)*

Cymerwyd bod y naill ddogfen a'r llall wedi eu darllen

Cadarnhaodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth eu bod yn fodlon â'r cyllidebau diwygiedig fel y'u cyflwynwyd a bod modd cyflawni targedau gyda'r adnoddau sydd ar gael. Roedd yn debygol y byddai rhai ffactorau'n newid yn ystod y cyfnod ond byddai'r rhain yn cael eu hadolygu'n barhaus gan y Pwyllgor Gwaith a'u hadrodd i'r Bwrdd yn unol â hynny.

Yn dilyn trafodaeth a chan gymryd i ystyriaeth y newidiadau i'r cyllidebau a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a gyflwynwyd, cytunodd y Bwrdd i'r newidiadau ychwanegol canlynol i'r dogfennau:

**Cynllun Busnes 2021/2026**

Crynodeb o Incwm a Gwariant wedi'i Ddiweddaru (*tudalen 25)*

**Cynllun Gweithredol 2023 / 2024**

Cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol yng nghanlyniadau'r adran Marchnata a Chysylltiadau Strategol

*(Cig Eidion Cymru – tudalen 14)*

(Porc o Gymru – Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar dudalen 15)

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol diwygiedig yn yr adran Cyflenwi'r Gadwyn Gyflenwi – Datblygu'r Farchnad** – *(canlyniadau ac effaith – tudalen 18)*

**Crynodeb o'r Gyllideb**

**Cyflwyniad graffigol wedi'i ddiweddaru o'r crynodeb ariannol** - *(graff gwariant cyllidebol - wedi'i ddiweddaru ar dudalen 43)*

**Gweithredu: Pennaeth Cynaliadwyedd a Pholisi'r Dyfodol**

Byddai'r ddwy ddogfen yn cael eu cymryd fel rhai a gymeradwywyd gan y Bwrdd pe na bai'r Swyddogion Gweithredol yn derbyn adborth pellach erbyn y dyddiad cau, sef dydd Mercher 8 Mawrth 2023.

8. **<u>Pwyllgorau HCC</u>**

*a. I drafod yr adolygiad o Bwyllgorau HCC*

Cafwyd trafodaeth ford gron mewn perthynas ag adolygiad o strwythur Pwyllgorau HCC wrth symud ymlaen yn unol â'r strwythur trefniadol newydd ac i adlewyrchu'r newidiadau parhaus yn y diwydiant – megis yr amgylchedd, cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

Nodwyd y byddai Pwyllgorau Archwilio a Risg a Thâl HCC yn parhau gan fod y rhain yn Bwyllgorau Statudol a bod gofyn iddynt gyflawni dyletswyddau penodol ar gyfer strwythur llywodraethu'r sefydliad.

Pwyllgorau sefydledig eraill HCC oedd:

Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu
Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi
Y Grŵp Ymgysylltu â'r Diwydiant
Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata

Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth

Teimlai'r Bwrdd ei bod yn bwysig cymryd amser gyda'r adolygiad hwn ac ystyried yr anghenion busnes o amgylch pynciau'r Pwyllgor a dewis y sgiliau perthnasol i wasanaethu ar Bwyllgorau. Roedd posibilrwydd o sefydlu grwpiau cychwyn a gorffen penodol ar sail ad-hoc a phwnc.

Nodwyd adborth y Bwrdd a chytunwyd y dylai'r Swyddogion Gweithredol ymgysylltu â'r Cadeirydd ar yr eitem hon y tu allan i'r cyfarfod a chyn cyfarfod y Bwrdd ar 4 Mai 2023.

**Gweithredu: Y Cadeirydd a'r Swyddogion Gweithredol**

<u>Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu</u>

b. *<u>I fabwysiadu cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd Ddydd Iau 12 Ionawr 2023 (HCC 1129)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

Y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth

c. *I dderbyn adroddiad llafar a mabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mercher 1 Chwefror 2023 (HCC 1130)*

Cymerwyd bod y cofnodion wedi eu darllen a chawsant eu defnyddio fel adroddiad i'r Bwrdd.

Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg

d. *I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd Ddydd Iau 2 Mawrth 2023*

Adroddodd Cadeirydd y Pwyllgor ar y materion allweddol a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 2 Mawrth 2023.

- Roedd y mater mewn perthynas â statws TAW HCC yn parhau gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi.
- Adolygwyd Cofrestr Risg HCC gan y Pwyllgor ac ni chodwyd unrhyw ddiwygiadau.
- Cyflwynodd Azets ar yr Adroddiad Archwiliad Mewnol ar gyfer 2022 / 2023. Byddai'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol yn parhau i drafod y mater hwn yn uniongyrchol ag Azets a byddai'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn cael gwybod am ddatblygiadau.
- Cyflwynodd Azets gynllun archwilio arfaethedig ar gyfer 2023 / 2024 a oedd yn cynnwys cynnydd mewn diwrnodau contract. Teimlai Azets y byddai'r diwrnodau ychwanegol yn rhoi digon o sicrwydd i allu rhoi barn am y flwyddyn. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach gydag Azets a'r Swyddogion Gweithredol.
- Cyflwynodd Archwilio Cymru drefniadau ar gyfer cynllun diwedd blwyddyn Archwilio Cymru am 2022 / 2023. Roedd amserlen y broses archwilio yn hwyrach nag yn y blynyddoedd blaenorol, sy'n golygu ei bod yn annhebygol y byddai barn archwilio yn cael ei darparu ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ar 6 Gorffennaf. Byddai'r mater hwn yn cael ei adolygu gan Archwilio Cymru a cheid trafodaeth bellach gyda'r Pennaeth Cyllid a Llywodraethiant Corfforaethol.
- Cafodd y Swyddogion Gweithredol eu canmol gan Gadeirydd y Pwyllgor am y sefyllfa bresennol gyda Rheoli Credyd heb unrhyw broblemau i'w hamlygu.

9. **Papur er gwybodaeth: Trwybwn Lloi yn y DG (HCC 1131)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi ei ddarllen.

10. **Unrhyw fater arall**

Ni codwyd unrhyw fater ffurfiol arall.

Ar ran y Bwrdd a'r Swyddogion Gweithredol, diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd yn gadael y Bwrdd, sef Melody Chapman, Huw Davies a Claire Williams, am

eu hymdrechion a'u hymrwymiad i'r Bwrdd ac am gynrychioli diwydiant cig coch Cymru.  Dymunodd yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

11. **<u>Dyddiadau cyfarfodydd i ddod</u>**

Diweddariad Bwrdd HCC drwy Teams – Dydd Iau 20 Chwefror 2023 am 9.30am
Cyfarfod o Fwrdd HCC – Dydd Iau 4 Mai 2023 (Yr amser heb ei drefnu eto)

**Llofnodwyd…………………………….**